# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 26 Medi 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 89(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol - Cynllun Gweithredu 2017-2021

(45 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Cynigion Trafnidiaeth ar gyfer Glannau Dyfrdwy

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol 2017-2020

(45 munud)

**Dogfen ategol**

Cynllun cyflawni ar gyfer clefydau niwrolegol

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Ynni

(30 munud)

## 7 Dadl: Data - Bod yn fwy agored a hygyrch

(60 munud)

**NDM6507** **Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddata agored yn sgil cyhoeddi ein Cynllun Data Agored cyntaf erioed a'i weithredu'n barhaus.

2. Yn nodi'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru hyd yma, ynghyd â chynlluniau parhaus i wneud data yn fwy agored a sicrhau eu bod yn fwy hygyrch.

3. Yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i dynnu ar bwerau deddfwriaethol i ddatblygu canllawiau sy'n annog pob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud mwy o ddefnydd o ddata agored ac i gyhoeddi mwy.

4. Yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i addasu prosesau ar gyfer caffael nwyddau neu wasanaethau i hyrwyddo bod yn agored a thryloyw.

Cynllun Data Agored

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector i wella prosesau rhannu data a lleihau dyblygu yn y broses o gasglu data ledled Cymru.

**Gwelliant 2.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod rôl Llywodraeth Cymru yn y broses o gydweithio â rhanddeiliaid a chyrff allweddol i sicrhau bod casglu data yn canolbwyntio ar gael y wybodaeth gywir i ddylanwadu ar newidiadau cadarnhaol mewn polisi a'u cyflawni.

**Gwelliant 3.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru weithio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn dilyn yr esiampl a osodir gan Gyngor Sir Fynwy a reolir gan y Ceidwadwyr drwy gyhoeddi ei holl wariant.

**Gwelliant 4.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid casglu data perfformiad a'i gyhoeddi mewn modd sy'n galluogi cymariaethau â gwledydd eraill yn y DU.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 27 Medi 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 21 Medi 2017 i'w hateb ar 26 Medi 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer newid moddol i drafnidiaeth gynaliadwy? (OAQ51080)

**2. Gareth Bennett (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gais Caerdydd i gynnal gemau yn ystod pencampwriaethau pêl-droed Ewropeaidd UEFA yn 2020? (OAQ51086)

**3. Sian Gwenllian (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i recriwtio a hyfforddi staff newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng ngogledd Cymru? (OAQ51084)**W**

**4. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â chynllunio'r gweithlu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda? (OAQ51081)**W**

**5. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi prentisiaethau yng Nghymru? (OAQ51057)

**6. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau trawma yn ne Cymru? (OAQ51085)

**7. Jeremy Miles (Castell-nedd):** Pa rôl y mae'r Prif Weinidog yn rhagweld i dai modiwlar yn y broses o gwrdd ag anghenion Cymru am gartrefi? (OAQ51074)**W**

**8. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau yng Nwyrain De Cymru? (OAQ51063)

**9. Huw Irranca–Davies (Ogwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd darpariaeth Dechrau'n Deg i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y pumed Cynulliad? (OAQ51082)

**10.** **Vikki Howells (Cwm Cynon):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod tymor y Cynulliad hwn i wella profiadau defnyddwyr ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru? (OAQ51061)

**11.** **Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith diwygio lles yn Nhorfaen? (OAQ51083)

**12.** **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am argaeledd cyflogaeth ym Merthyr Tudful a Rhymni? (OAQ51062)

**13.** **Neil McEvoy (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau tryloywder drwy Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000? (OAQ51078)

**14.** **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Sut y bydd Llywodraeth Cymru'n paratoi ar gyfer y cyfleoedd sy'n deillio o ddiddymu'r tollau ar y croesfannau Hafren? (OAQ51079)

**15.** **Nathan Gill (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr angen am dai yng Ngogledd Cymru? (OAQ51066)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

---

**Dydd Mawrth 3 Hydref 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Cyllideb Ddrafft 2018-19 (60 munud)
- Datganiad gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Annibynnol o Chwaraeon Cymru (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Rhaglen i Ddileu TB Buchol (30 munud)
- Cynnig i dderbyn y penderfyniad ariannol mewn cysylltiad â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (30 munud)
- Dadl:  Y Papur Gwyn ar Gynigion ar gyfer Bil y Gymraeg (60 munud)

**Dydd Mercher 4 Hydref 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Cyflwyno Bil a gynigir gan Bwyllgor - Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (30 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 'Gwireddu'r Uchelgais - Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru' (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Lee Waters (Llanelli) (30 munud)

**Dydd Mawrth 10 Hydref 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Integreiddio a Gweithio mewn Partneriaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (45 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol (15 munud)
- Dadl: Adolygiad Cyflym o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 (60 munud)

**Dydd Mercher 11 Hydref 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)

- Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Tawelu'r Traffig: Effaith Tagfeydd ar Wasanaethau Bysiau (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y goblygiadau i Borthladdoedd Cymru o adael yr Undeb Ewropeaidd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer – Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 17 Hydref 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif (45 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Seilwaith Telathrebu (Rhyddhad rhag Ardrethi Annomestig) (15 munud)
- Dadl:  Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb (60 munud)

**Dydd Mercher 18 Hydref 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru) (30 munud)